

## Arfarniad cryno o effaith blaenoriaethau gwella 2023/24

### **1. Datblygiad ychwanegol a pharhaus i Gwricwlwm Y Bont**

- i) Ymestyn pellach i fodel CAYB o'r Llwybrau Dysgu a ffocws penodol ar y Llwybr Anffurfiol a Lled-ffurfiol**
- ii) Ymestyn 'Mapio ag asesu cynnydd personol' i'r holl ddsbarthiadau anffurfiol**
- iii) Datblygu 'Evidence for Learning' fel peilot (anffurfiol)**
- iv) Ymateb iawn i'r strategaeth Ysgol Gyfathrebu Gyfeillgar**

Mae Cwricwlwm Y Bont wedi esblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn wrth i gynlluniau peilot llwyddiannus cael ei gweithredu ar lefel draws ysgol.

Mae Cwricwlwm Y Bont ar waith ymhob dosbarth o dan arweinyddiaeth athrawon dosbarth ag uwch arweinwyr sydd yn hyderus wrth gyflwyno strategaethau a dulliau addysgu a dysgu newydd a perthnasol.

Mae disgyblion yn dangos cynnydd cyson da neu well wrth fesur yn erbyn bwriadau dysgu personol, ac mae adborth a chyfraniadau rhieni i Gwricwlwm Y Bont yn bositif ac yn adeiladol, yn bennaf cymeradwyr y dulliau sy'n annog y disgybl i arwain y dysgu.

Mae datblygiad 'Evidence for Learning' yn dangos cynnydd da, ac mae timau dosbarth yn gwerthfawrogi'r prosesau sydd yn well tystiolaethu'r asesu parhaus.

Ar adegau mae'r amserlen wedi codi heriau wrth gywasgu trefniadaeth y llwybrau dysgu ac mi fydd hyn yn derbyn sylw o fewn blaenoriaeth 2024/25.

### **2. Ehangu'r profiadau dysgu drwy wneud defnydd mwy pwrpasol o'r adnoddau allanol ac arbenigol.**

Yn Dilyn cyfnod heriol gydag adeilad yr ysgol, mae'r gymuned ysgol bellach yn medru cynllunio i ymestyn yr adnoddau allanol ac arbenigol.

Mae'r gymuned ysgol wedi gweithio'n galed i sicrhau ffocws clir i'r flaenoriaeth, ac wedi llwyddo ymgorffori'r amcan o fewn y llwybrau dysgu a Chwricwlwm Y Bont. Rydym wedi llwyddo mewn ystod o geisiadau grantiau allanol er mwyn ariannu'r flaenoriaeth. Eisoes gwelir defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu allanol newydd (2023), ac mi fydd y flaenoriaeth yn parhau'n berthnasol wrth i ni ddatblygu ac ymestyn ein hadnoddau yn 2024/25. Mae disgyblion yn elwa'n sylweddol o'r ardaloedd a'r adnoddau sensori newydd sydd bellach yn weithredol o fewn yr adeilad.

Er bod arbenigwyr cam yn nes i ddatrys problemau'r pŵll hydro, nid yw ar hyn o bryd yn weithredol.

### **3. Gweithredu'r Cynllun Fframwaith Iechyd a Lles traws ysgol;**

- i) Sicrhau ymateb i'r canfyddiadau awdit**
- ii) Sicrhau cynnydd meintiol i gamau gweithredu'r Bont gan ddangos yn glir y cyswllt i ofynion y Fframwaith.**

Mae cynnydd sylweddol wedi'i nodi i'r flaenoriaeth Iechyd a Lles, ac yn naturiol fel ysgol arbennig mae'n rhan allweddol a phwysig o'r ddarpariaeth a chynhaliaeth o fewn Cwricwlwm Y Bont.

Cafwyd ymateb lawn i ganfyddiadau'r awdit, ac mae'r ysgol yn medru tystiolaethu bron pob agwedd o'r fframwaith ar lefel uchel, gydag ychydig iawn o agweddau ble mae angen sylw pellach.

Mae disgyblion yn elwa drwy ddangos blaengarwch wrth gyfrannu i'r flaenoriaeth, ac mae strategaethau penodol megis 'Gwener Gwych' yn derbyn adborth bositif iawn gan rieni a rhanddeiliaid eraill.

Rydym wedi llwyddo i sicrhau fod y Fframwaith Iechyd a Lles yn dylanwadu ar draws y gymuned ysgol, gan gynnwys staff a llywodraethwyr. Fel rhan o'n gweledigaeth ac ethos mi fydd Iechyd a Lles bob tro yn uchel o fewn ein blaenoriaethau parhaus.

### **4. Cryfhau'r gweithdrefnau hunanwerthuso drwy well fesur effaith y gweithredoedd ar safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu. Sicrhau ymateb a gweithredu pellach i ganllawiau cenedlaethol/consortia; yn benodol - Canllaw Gwella Ysgolion (Mehefin 2022 - Fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd).**

Mae nifer o gamau gweithredu yn rhan o'r fframwaith eang â pharhaus yma, a gwelwyd cynnydd da i gamau gweithredu 2023/24. Yn benodol mae systemau ag amserlen hunan werthuso'r ysgol wedi'i fireinio, gyda chanfyddiadau yn well ffocysu ar yr effaith ar lawr dosbarth. Mi fyddwn yn gwreiddio hyn ymhellach o fewn ein prosesau adolygu yn 2024/25.

Fel pob ysgol yng Nghymru, mi fyddwn yn cynnwys rhanddeiliaid yn fwy amlwg yng ngweithdrefnau'r ysgol gan sicrhau fod mwy o wybodaeth gyd-destunol ar gael i rieni a phartneriaid ar ein gwefan. Mi fydd hyn i'w weld o Fedi 2024 ymlaen, ac yn cynnwys cyfeiriad blaenoriaethau'r ysgol i gyfnod 2024-27. Edrychwn ymlaen at fewnbwn rhieni ar ein taith barhaus o hunan-wella.

Mae linc ar ein gwefan [www.canolfanaddysgybont.cymru](http://www.canolfanaddysgybont.cymru) (o dan Llywodraeth Cymru) i'r ddogfen gyflawn; Canllaw Gwella Ysgolion.